

Creu perllannau cymunedol



Beth wnaethom ni?

Dechreuon ni ddwy berllan gymunedol; ar dir hamdden Ffordd y Felin, Trelái a Pharc y Sanatoriwm, Treganna. Ychwanegir at y rhain dros y tymhorau nesaf.

Pwy oedd yn rhan o'r gwaith?

Ar gyfer Ffordd y Felin buom yn gweithio gyda thrigolion sy'n byw y tu ôl i'r safle, Grŵp Afonydd Caerdydd, a Chymdeithas Saint Vincent De Paul.

Ar gyfer Parc y Sanatoriwm buom yn gweithio gyda disgyblion o Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Pwll Coch, trigolion lleol, ac aelodau o Gefnogwyr Parc y Sanatoriwm.

Sut a pham y gwnaethom hynny?

Yn y ddau achos, cysylltodd preswylwyr â ni a oedd â diddordeb mewn gwella eu mannau gwyrdd lleol, yn enwedig gyda choed ffrwythau, er budd pobl a bywyd gwyllt.

Roedd trigolion Ffordd y Felin yn pryderu am y cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y cyfnod clo ac roeddent am i'r safle dderbyn rhywfaint o ofal fel bod pobl leol yn teimlo'n fwy cysylltiedig a bod ganddynt ardal i ofalu amdani. Gwnaethom arolygu'r safle gyda thrigolion a grwpiau cymunedol lleol i bennu'r lleoliad addas ar gyfer coed ffrwythau a choed eraill. Mae'r safle'n boblogaidd gyda cherddwyr cŵn ac mae newidiadau i'r drefn torri gwair wedi caniatáu i ddôl blodau gwyllt sefydlu yn ystod misoedd yr haf yn y cae isaf, ond nid oedd llawer o nodweddion diddorol ar y safle y gallai'r gymuned gymryd perchnogaeth ohonynt.

Gwelwyd cyfle gennym i ddefnyddio sgwâr ar y cae uchaf ar gyfer perllan a oedd wedi'i gysgodi'n flae-norol gan glawdd llawryf sydd wedi'i dorri'n ôl. Gyda chymorth trigolion a grwpiau cymunedol, ehangwyd y coetir gwlyb ar y cae isaf sy'n dueddol o fod dan ddŵr a dechrau gwaith ar y berllan ar y cae uchaf gyda rhai coed cnau a choed ffrwythau meddal gan gynnwys coed Cyll ac Ysgaw. Yn yr hydref byddwn yn dychwelyd i blannu mwy o goed ffrwythau a chreu twnnel helyg ger y coetir gwlyb i blant ifanc chwarae ynddo. Yn y tymor hwy, bydd y safle hefyd yn elwa o gael gwared ar Glymog Japan ar hyd glan yr afon ac yn y pen draw ailblannu â rhywogaethau brodorol.

Ar gyfer Parc y Sanatoriwm, mynegwyd diddordeb gan Gefnogwyr Parc y Sanatoriwm i blannu coed ffrwythau ar y safle. Ar yr un pryd, cafwyd diddordeb hefyd gan Ysgol Uwchradd Fitzalan i gymryd rhan mewn gweithgareddau coed gyda'u heco-bwyllgor. Gwnaethom arolygu'r safle gyda disgyblion a nodi cyfleoedd i ehangu'r coetir gwlyb aeddfed a lleoliadau addas ar gyfer y coed ffrwythau. Yn ystod yr arolwg, gwelsom lawer o adar a phlanhigion a oedd yn dangos gwerth bioamrywiaeth uchel y coetir presennol ac felly dewiswyd rhywogaethau'n ofalus i gefnogi'r cynefin pwysig hwn ymhellach.



Aelod Cefnogwyr Parc y Sanatoriwm gyda choed ffrwythau
(Digwyddiad plannu coed Parc y Sanatoriwm, Treganna
14.03.22)

Gyda chymorth disgyblion Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Pwll Coch, Cefnogwyr Parc y Sanatoriwm a grwpiau cymunedol eraill, gwnaethom ehangu'r coetir gwlyb a phlannu 30 o goed ffrwythau; gan gynnwys coed Ceirios, Afal, Gellyg ac Eirin. Byddwn yn dychwelyd yn yr hydref i barhau i ehangu coetiroedd ar y safle mawr hwn ac edrych ar gyflwyno cerfluniau helyg byw ar gyfer chwarae ac i greu diddordeb.



Beth rydym yn gobeithio ei gyflawni?

Drwy ymateb i geisiadau cymunedol a chyd-ddylunio'r mannau hyn gyda phobl leol, rydym yn gobeithio y bydd trigolion a grwpiau yn cymryd perchnogaeth o'r safleoedd hyn ac yn mwynhau gofalu am ffrwythau a choed eraill am flynyddoedd i ddod.

Yn y ddau achos mae trigolion wedi bod yn ôl mewn cysylltiad sawl gwaith i roi gwybod i ni sut mae'r coed yn sefydlu, adrodd am unrhyw golledion, a rhannu adborth cadarnhaol. Mae hwn yn ddechrau calonogol i wneud i gymunedau deimlo'n fwy grymus i ofalu am eu mannau gwyrdd lleol.

"Wedi'i drefnu'n dda ac yn gynhwysol. Diolch am estyn allan at ystod eang o gymunedau."
– Tir hamdden Ffordd y Felin, cyfranogwr plannu coed Trelái a phreswlydd (19.02.22)

"Cafodd y plant fore bendigedig yn dysgu am y coed a'r coetir, ac yna'n plannu'r coed. Ers hynny maen nhw wedi ymestyn eu dysgu am ein hamgylchedd naturiol gyda phrosiect am y gwahanol blanhigion sy'n tyfu yn y parc." – Cefnogwyr Parc y Sanatoriwm, dyfyniad Facebook



Trigolion Ffordd y Felin a gwirfoddolwyr eraill gyda dechrau'r berllan ar dir hamdden Ffordd y Felin (digwyddiad plannu 19.02.22)



Gwirfoddolwyr gyda choeden ffrwythau sydd newydd ei phlannu (Digwyddiad plannu coed Parc y Sanatoriwm, Treganna 14.03.22)

